

## PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD IAU, 30 MAI 2019

Present: Councillor Weaver(Chairperson)  
Councillors Howells a/ac Graham Thomas

### 1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Dilwar Ali a Lay.

### 2 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

### 3 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

### 4 : POLISI BUDDSODDI NEWID YN YR HINSAWDD

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran gweithio tuag at Bolisi Buddsoddi Newid yn yr Hinsawdd.

Yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2019 derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn cyflwyno Polisi Buddsoddi Newid yn yr Hinsawdd drafft. Roedd yr adroddiad yn cynnig pedwar maes gweithredu allweddol i'r Pwyllgor eu hystyried wrth reoli amlygiad y Gronfa i risgiau newid yn yr hinsawdd:

- Symud buddsoddiadau goddefol i gronfeydd sy'n olrhain mynegeion "carbon isel"
- Ymgysylltu â chwmnïau drwy'r Bartneriaeth Pensiwn Cymru a'r Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol
- Dadfuddsoddi o gwmnïau sy'n cynrychioli risg barhaus
- Buddsoddiad cadarnhaol mewn cwmnïau sy'n datblygu technoleg lân

Nododd y Pwyllgor y gwaith a wnaed hyd yma, a chytunodd i fabwysiadu amcanion cyffredinol y polisi a gofynnodd am i'r Bwrdd Pensiynau Lleol gael ei ymgynghori ar y cynigion.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am i waith gael ei wneud ar ddichonoldeb ac effaith y dadfuddsoddi benodol o ran cloddio am danwydd ffosil, gan gydnabod bod yn rhaid i unrhyw gamau o'r fath fod yn gyson â'i ddyletswyddau ymddiriedol o fuddsoddi asedau'r Gronfa yn ddarbodus.

Nododd y Pwyllgor fod Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ers ei gyfarfod diwethaf.

Cyfarfu'r Bwrdd Pensiynau Lleol ar 29 Ionawr ac roedd yr Aelodau'n cefnogi'r cynigion. Nododd y Bwrdd fod y polisi yn cymryd camau cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â pherygl newid yn yr hinsawdd mewn modd cymesur a phwyllog.

Cyfarfu'r Panel Ymgynghori ar Fuddsoddi ar 19 Mawrth ac roedd yn cefnogi'r cynigion ar gyfer dyraniad cychwynnol o 10% i Gronfa Garbon Isel fyd-eang gyda darpariaeth ar gyfer dyraniadau pellach mewn blynyddoedd dilynol yn amodol ar ganlyniad adolygiadau rheolaidd ar berfformiad ac effaith y Gronfa.

Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru yn datblygu Polisi Buddsoddi Cyfrifol. Bydd y polisi yn cynnwys adran ar newid yn yr hinsawdd ac ymrwymiad i ymgynghori ymhellach â'r wyth awdurdod cronfa pensiwn gyda'r bwriad o ddatblygu polisi risg penodol i'r hinsawdd o ran Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Bydd Polisi Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiynau Cymru, sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd yn nodi, er nad yw Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi mabwysiadu polisi o arferion allgau, y bydd yn cydnabod y gall Awdurdodau Cyfansoddol fabwysiadu polisi o'r fath yn unigol. Yn unol ag ymrwymadau Uchelgais Prifddinas Cyngor Caerdydd, bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda phartneriaid buddsoddi'r gronfa a Phartneriaeth Pensiynau Cymru er mwyn archwilio opsiynau ar gyfer eithrio o'i bortffolios buddsoddi y cwmnïau hynny sy'n cyflwyno'r mwyaf arwyddocaol peryglon newid yn yr hinsawdd; Er enghraifft, dros gyfnod o amser yn dadfuddsoddi mewn cwmnïau sy'n cymryd rhan mewn cloddio am danwydd ffosil.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Roedd Aelodau o'r farn nad oedd dyraniad cychwynnol o 10% yn ddigon uchelgeisiol ac fe'u cynghorwyd fod 10% mewn gwirionedd yn cyfateb i £200 miliwn sef draean o'r buddsoddiad goddefol. Roedd Aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol gweld dadansoddiad o'r ffigwr hwn.

Nododd yr Aelodau y gwaith ar garbon isel a'r gwaith ar ddatblygu dichonoldeb ac effaith dadfuddsoddi ac ystyried y gellid gwneud gwaith cwmpasu pellach mewn perthynas â thybaco ac arfau fel bod Caerdydd yn gwybod beth yw buddsoddiad derbyniol ar gyfer ei chronfeydd. Roedd Aelodau o'r farn y gallai hyn fod yn faes i'w drafod yn gryfach gyda phob Aelod.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- (1) Cymeradwyo argymhelliad y Panel Ymgynghori ar Fuddsoddi i wneud dyraniad cychwynnol yn ystod 2019/20 o 10% o asedau'r cyllid i gronfa sy'n olrhain mynegai Carbon Isel Byd-eang.
- (2) Datgan ei gefnogaeth mewn egwyddor i ddadfuddsoddi mewn cwmnïau sy'n cloddio am danwydd ffosil, ar yr amod bod hyn yn gyson â'i ddyletswyddau ymddiriedol; ac yn asesu effaith penderfyniad buddsoddi o'r fath yn rheolaidd; ac yn datgan ei gefnogaeth i ddatblygu ymhellach Bolisi Buddsoddi Newid yn yr Hinsawdd er mwyn adlewyrchu'r gwaith hwn a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn gyson â nodau Cytundeb Paris.

- (3) Nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd ag awdurdodau eraill Partneriaeth Pensiynau Cymru a phartneriaid buddsoddi Partneriaeth Pensiynau Cymru.

## 5 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Hysbyswyd yr Aelodau bod yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran sefydlu trefniadau buddsoddi cyfun ar gyfer yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru o dan oruchwyliaeth Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Lansiwyd y ddwy is-gronfa gyntaf – Twf Byd-eang a Chyfleoedd Byd-eang – ym mis Ionawr 2019 gyda gwerth bron £4 biliwn o asedau wedi'u trosglwyddo o saith o'r wyth cronfa pensiwn. Ni roddodd Cronfa Caerdydd a Bro Morgannwg unrhyw asedion yn y cronfeydd hyn gan nad yw ei dyraniad asedau cyfredol yn cynnwys ecwitiau byd-eang.

Caiff is-gronfeydd pellach, yn cwmpasu ecwitiau rhanbarthol ac incwm sefydlog, eu lansio yn ystod 2019/20. Ar hyn o bryd, mae gan Gaerdydd gyfanswm o asedau gwerth £450 miliwn mewn ecwitiau gweithredol a gwerth £570 miliwn mewn incwm sefydlog. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai mwy o fanylion yn cael eu darparu i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ym mis Mehefin ac y byddai hyn yn golygu bod 50% yn cael ei gronni ledled Cymru. Byddai adroddiad i'r Pwyllgor yn yr Hydref yn dangos bod Caerdydd wedi cael ei chyfuno i raddau helaeth.

Mae Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn cael ei ddatblygu gan Partneriaeth Pensiynau Cymru. Cymeradwyodd y Cydbwyllgor Llywodraethu egwyddorion ar gyfer y polisi yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth yn dilyn cyflwyniad gan yr ymgynghorwyr Hymans Robertson. Bydd Polisi drafft yn cael ei baratoi a'i gylchredeg i'r wyth awdurdod i'w adolygu cyn ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ym mis Medi.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai Partneriaeth Pensiynau Cymru yn gweithredu fel corff cydlynu ac y byddai awdurdodau unigol yn cael y gair olaf ar y strategaethau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw wybodaeth wedi dod o'r Gweithgor Swyddogion ac fe'u cynghorwyd mai gwaith ar y gweill ydoedd; roedd yn anodd dod i unrhyw gasgliadau realistig o'r dangosyddion perfformiad o'r chwarter cyntaf gan nad oedd yn chwarter llawn ac mae'r adroddiadau ond yn rhai rhannol. Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r hyn y mae angen ei adrodd a cheir heriau o ran lefel y wybodaeth a ddarperir gan y gweithredwr; byddai angen i'r gofynion o ran dangosyddion perfformiad fod yn effeithiol, yn glir ac yn gadarn a byddai angen i'r gweithredwr roi gwybod am y rhain gan y byddai'n rhaid iddynt ychwanegu gwerth.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar stociau Ecwiti Rhanbarthol a dywedwyd y byddai Japan, er enghraifft, yn rhanbarth. Ychwanegodd y swyddogion fod y Partneriaeth Pensiynau Cymru yn gyfle i fuddsoddi yma yn haws a bod cynghorwyr y Panel yn gyfforddus gyda'r symud.

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r datblygiadau diweddar o ran sefydlu cronfa buddsoddi Partneriaeth Pensiynau Cymru.

## 6 : POLISI CWYNION

Hysbyswyd yr Aelodau bod yr adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor fabwysiadu Polisi Cwynion yn ffurfiol mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.

Cynhaliodd swyddogion y Cyngor gyfres o gyfarfodydd a galwad cynhadledd gyda gweithwyr achos y Rheoleiddiwr Pensiynau yn ystod 2018-19 fel rhan o ymgysylltiad y Rheoleiddiwr Pensiynau â sampl o gronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Adolygodd y Rheoleiddiwr Pensiynau y polisiau a'r dogfennau llywodraethu ar gyfer y Gronfa a nododd, er bod gan Gyngor Caerdydd bolisi cwynion corfforaethol, nad oes polisi cwynion cynhwysfawr ar waith ar gyfer Gweinyddu Pensiynau. Dywedodd y Rheoleiddiwr Pensiynau y dylai'r Pwyllgor Pensiynau fabwysiadu Polisi Cwynion yn ffurfiol yn ei gyfarfod nesaf.

Mae'r Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gosod rhwymedigaethau penodol ar awdurdodau gweinyddu mewn perthynas â dyfarnu ceisiadau gan unrhyw berson yr effeithir ar ei hawliau neu ei rwymedigaethau o dan y cynllun gan benderfyniad, gweithred neu anwaith gan yr awdurdod neu un o'r cynllun Cyflogwyr. Mae Rheoliad 74 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod benodi dyfarnwr i ystyried ceisiadau ac mae Rheoliad 76 yn gwneud darpariaeth i benderfyniad y dyfarnwr gael ei gyfeirio ar gyfer ei ailystyried gan yr awdurdod gweinyddu. Mae'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (GDAM) yn nodi sut yr ymdrinnir â cheisiadau o'r fath. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys penderfynu sut y gweinyddir anghydfodau o dan y GDAM.

Cynigir y dylid sefydlu polisi cwynion cynhwysfawr ar gyfer Gweinyddu Pensiynau, yn seiliedig ar y polisi corfforaethol, a bod yr holl gwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi. Bydd cwynion sy'n dod o dan y GDAM yn cael eu trin yn unol â'r broses honno. Ymdrinnir â chwynion eraill e.e. cwynion am ansawdd gwasanaeth, yn unol â'r polisi.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- (1) Mabwysiadu'r polisi Cwynion Arfaethedig ar gyfer y Gronfa Bensiwn.
- (2) Nodi bod y GDAM yn gymwys i gwynion yn erbyn penderfyniadau mewn perthynas â budd-daliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- (3) Nodi y bydd pob cwyn sy'n syrthio y tu allan i'r GDAM yn cael eu trin o dan y Polisi Cwynion.
- (4) Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yr awdurdod i benodi dyfarnwyr ar gyfer ceisiadau o dan gamau 1 a 2 y GDAM.

## 7 : COFNODION Y BWRDD PENSIYNAU LLEOL

Nodwyd.

Atgoffwyd Aelodau bod croeso iddynt fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Pensiynau Lleol fel arsylwyr.

8 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Penderfynwyd bod eitem 9 yn gyfrinachol ac nid i'w chyhoeddi yn rhinwedd paragraff 14 o ran 4 a pharagraff 21 o ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Ni chynhwyswyd y cyhoedd yn y cyfarfod i gyflwyno'r eitemau hyn yn unol â'r un ddeddfwriaeth.

9 : COFNODION Y PANEL YMGYNGHORI AR FUDDSODDI

Nodwyd

10 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim

11 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

11 Gorffennaf 2019 am 5.00pm, Ystafell Bwyllgor 2, Neuadd y Sir, Caerdydd.

The meeting terminated at 5.30 pm